

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai  
ar nos Iau 10 Ionawr, 2019 am 1900**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Megan Tomos

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.**

**2. Ymddiheuriadau-** gan y Cyng. Evan Jones a Myfanwy Jones.

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2018.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Yr hen A55** -problem gyda goryrru ar y ffordd sydd yn ardal 30mya. Wedi cael ymateb gan yr Heddlu yn holi am fwy o wybodaeth ar y mater ac eu bod yn fodlon monitro'r safle. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Eglwys Llan** -Tad Matthews yn disgwyl ail ymweliad gan gwmni i gael amcan bris er mwyn i'r pwyllgor Eglwysig wneud penderfyniad dros atgyweirio'r difrod. Y Clerc i holi am ddiweddariad. Hefyd angen gofyn wrth ein contractwr pryd fydd y gwaith yn cael ei gwblhau ar y gor-dyfiant.

**Crymlyn, Aber** - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Y wal dal i ddisgwyl cael sylw, a'r ffordd angen ei lanhau. Y Clerc i holi am ddiweddariad ar y wal ac hefyd am yr arwydd.

**Lôn Goed** - y ffos ar hyd y ffordd angen sylw. Cyngor Gwynedd am drefnu archwiliad o'r safle a chodi archeb ar gyfer unrhyw waith angenrheidiol. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Gwrychoedd ar hyd ffordd Coetmor** – gwrychoedd ar hyd y ffordd ger fynwent Coetmor angen eu torri. Cyngor Gwynedd i archwilio'r cloddiau a chysylltu gyda'r tir berchnogion ynglŷn ag unrhyw dyfiant sydd angen ei docio yn ôl. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Airfields of Britain Conservation Trust** - y plac coffa wedi cyrraedd Fferm Glanmôr. Y Clerc i holi adeiladwyr am bris i'w osod. Trafodwyd cael digwyddiad i ddathlu'r plac gyda ysgolion lleol yn y Gwanwyn.

**Allt Ty'n Hendre** – twll mawr yn y ffordd, pryderon bydd rhywun yn mynd i'r ffos wrth drïo osgoi'r twll. Y twll wedi ei llenwi gan Gyngor Gwynedd.

**Lôn o Llanllechid sy'n arwain at Bronydd Isaf** – tyllau mawr yn y ffordd yma a llawer o fwd. Y tyllau wedi eu llenwi.

**Ffordd wrth Wern Bach** – twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto. Y twll dal yno, y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

**Cyfarfod i drafod band eang yn yr ardal** – y Cyng. Wyn Bowen Harris wedi mynychu'r cyfarfod oedd wedi ei drefnu gan Sian Gwenllian i drafod diffyg cysylltiad band eang cyflym yn yr ardal. Pawb wedi darparu eu côd post ar gyfer tystiolaeth pellach i'w anfon at BT Openreach.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Ysgol Dyffryn Ogwen-Swyddog Hybu Rygbi £100.00

## 6. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd**- e-bost gan Simon Roberts, Peiriannydd Cynorthwyol Cyngor Gwynedd-holi os oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio darn o'r cae chwarae fel ardal gwanhau? Hefyd fyddai modd cael caniatad i wneud profion ar fandylledd yr ardal yma? Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor wrthwynebiad, mewn egwyddor. Ond angen trefnu cyfarfod ar y safle gyda'r swyddog a cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned i drafod yn iawn.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan I Hughes Morris am ddyraniad o'r mynydd. Y Clerc i holi am fwy o wybodaeth.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan y Cyng. Geraint Hughes. Llun o ddiffibriliwr wedi ei osod ar gapel yng nghanol Pen Llyn. Cafwyd dyfynbris ar gyfer prynu a gosod yr offer o oddeutu £1400 & TAW. Penderfynwyd holi pwyllgor Capel Jerusalem am yr hawl i osod un ar wal y Capel. Trafodwyd hefyd am gael sesiwn hufforddiant gan Mantell Gwynedd.

## 7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

**Partneriaeth Ogwen**- adroddwyd bod arddangosfa 'Aelwyd' gan Sian Owen yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen ar hyn o bryd, ac bod gweithdy llechi gerfiedig yn cael ei gynnal dydd Sadwrn yma.

## 8. Adroddiad Cyllid

Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Rhagfyr. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

## **9. Archeb 2019-20**

Penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £8000. Y Clerc i anfon y ffurflenni i Gyngor Gwynedd erbyn diwedd mis Ionawr.

## **10. Penderfyniadau Cynllunio:**

**C18/1031/21/CT**

St Llechid Church, Llanllechid

Torri a thocio coed o fewn ardal gadwraeth

**Penderfyniad:** Caniatawyd, yn ddi-amodol..

## **Ceisiadau Cynllunio:**

Dim ceisiadau.

## **11. Materion Brys**

**Biniau halen** – angen halen yn bin Cochwillan a Allt Ty'n Hendre. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**Giât mochyn** – adroddwyd bod angen adnewyddu'r giatiau ar lwybrau yn Llan. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am rai newydd.

**Palmant o Tal y bont i 'Gypsy Corner'** – adroddwyd bod llawer o ddail ar y palmant. Y Clerc i ofyn wrth Cyngor Gwynedd i'w clirio.